# CYD-BWYLLGOR GWE DYDD MERCHER, 21 MAI 2025

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Phil Wynn (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Dafydd Roberts (Cyngor Sir Ynys Môn) a Mared Eastwood (Cyngor Sir y Fflint)

**Swyddogion Heb Bleidlais:** Aaron Evans (Cyngor Sir Ynys Môn), Dr Lowri Brown (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Louise Williams (Yr Eglwys yng Nghymru a Geraint Davies (Cyngor Sir Ddinbych)

**Swyddogion GwE:** Rhys Williams (Pennaeth Gwasanaeth GwE – Dysgu Proffesiynol), Euros Davies (Pennaeth Gwasanaeth GwE – Gwella Ysgolion) a Bethan Roberts (Rheolwr Rheoli Perfformiad GwE)

**Swyddogion yr Awdurdod Lletyol:** Ffion Madog Evans (Swyddog Cyllid Statudol - Gwynedd), Hywyn Lewis Jones (Cyfrifydd Addysg ac Economi - Gwynedd), Sïon Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau - Gwynedd), a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth - Gwynedd).

## 1. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2025 - 2026

Cynigiwyd ac eiliwyd ail ethol y Cyng Julie Fallon yn Gadeirydd ar gyfer 2025 /2026

**PENDERFYNWYD:**
**AIL ETHOL Y CYNG. JULIE FALLON YN GADEIRYDD AR GYFER 2025 – 2026**

## 2. ETHOL IS GADEIRYDD AR GYFER 2025 - 2026

Cynigiwyd ac eiliwyd ail ethol y Cyng Phil Wynn yn Is-gadeirydd ar gyfer 2025 - 2026

**PENDERFYNWYD:**
**AIL ETHOL Y CYNG. PHIL WYNN YN IS-GADEIRYDD AR GYFER 2025-2026**

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Cyng. Dewi Jones Cyngor Gwynedd), Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint), a Karen Evans (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam)

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan aelod oedd yn bresennol

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 6. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 19 Chwefror 2025 fel rhai cywir

## 7. CYFRIFON TERFYNOL GWE 2024/25 - ALLDRO REFENIW

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn diweddaru aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol terfynol cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2024/25.

Eglurodd Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau (Cyngor Gwynedd), bod yr adroddiad yn manylu ar sefyllfa diwedd y flwyddyn 2024/25 ar gyfer GwE. Adroddwyd bod y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn amlygu gorwariant o £523k oedd yn llawer is na'r gorwariant o £919k a ragwelwyd yn adolygiad mis Ionawr 2025.

Tynnwyd sylw at y prif faterion:

Gweithwyr – yn dilyn ystyriaethau costau diswyddo a chostau pensiwn, roedd y gorwariant yn £962 o filoedd (ffigwr Adolygiad Ionawr wedi nodi £1.1 miliwn), ond amlygwyd bod y sefyllfa yn parhau i newid a'r ffigwr yn lleihau wrth i swyddi gael eu cynnig i'r staff hynny sydd tu allan i drefn TUPE. Adroddwyd y byddai'r Datganiad o'r Cyfrifon terfynol yn adlewyrchu y gwir ffigwr ac o ganlyniad, cyfraniadau ychwanegol gan y Cynghorau.

Costau Rhent a therfynu contractau swyddfeydd – y gorwariant wedi cynyddu i £121 filoedd (£90 mil yn Ionawr) oedd o ganlyniad i derfynu contractau swyddfeydd; nid oedd costau terfynu contract swyddfa Bryn Eirias yn hysbys ynghynt. (Swyddfa Yr Wyddgrug yn un arall).

Cludiant – tanwariant o £19 mil ac fel sydd wedi ei adrodd yn gyson efo'r tueddiad blaenorol, bu cynnydd yn yr hawliadau teithio ers yr adolygiad diwethaf.

Cyflenwadau a Gwasanaethau - gorwariant o £9 mil. Nid yw'r cyfraniad arferol wedi ei wneud i gronfa adnewyddu technoleg gwybodaeth ac felly'r gorwariant yn llai.

Nodwyd bod y sefyllfa ariannol bresennol yn cymryd i ystyriaeth fod cronfa tanwariant o £221 o filoedd, yn cael ei defnyddio yn llawn i leihau y gorwariant. Tynnwyd sylw at y gronfa athrawon newydd gymhwyso sydd wedi cronni, gan nodi y byddai'r gronfa yn cael ei gwagu drwy ddefnyddio gwerth £143k o filoedd ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso, a'r £313 o filoedd sydd yn weddill wedi ei ddefnyddio i leihau y gorwariant.

Bydd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn amlygu bwlch ariannol o £523 o filoedd ac er nad oedd disgwyliad am arian ychwanegol ar gyfer 2024/25, bod yr Adran Gyllid yn dilyn cais am arian ychwanegol ar gyfer 2025 /26, yn disgwyl cadarnhad ffurfiol gan Llywodraeth Cymru. Ategwyd, os na ddaw arian ychwanegol o'r Llywodraeth, bydd rhaid i'r Cynghorau unigol ei gyllido, sydd yn uchafswm o £87 o filoedd fesul awdurdod. (er bod y costau diswyddo yn parhau i leihau, bydd y cyfraniad yma o ganlyniad yn debygol o leihau gyda'r darlun yn gliriach erbyn diwedd mis Mai 2025).

Diolchwyd am yr adroddiad a diolchwyd i'r staff am gwblhau'r gwaith o fewn cyfnod anodd.

Cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo’r adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**

- **Nodi a derbyn Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw Cydbwyllgor GwE am y flwyddyn 2024/25, sef sefyllfa o orwariant o £523,065, sydd i’w gyllido drwy gyfraniadau gan yr awdurdodau.**
- **Cymeradwyo trosglwyddiadau ariannol o £221,310 o’r gronfa tanwariant, a £312,547 o’r gronfa Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) i leihau gorwariant GwE yn 2024/25.**
- **Cymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2024/25, fydd yn sail i’r datganiadau ariannol statudol GwE am y flwyddyn. Fydd yn cael eu cynhyrchu, eu hardystio a’u cyhoeddi gan yr Adran Gyllid yr awdurdod lletya o fewn yr amserlen statudol.**

## 8. DATGANIAD LLYWODRAETHU AR GYFER CYDBWYLLGOR GWE

Cyflwynwyd y Datganiad Llywodraethu gan Euros Davies (Pennaeth Gwasanaeth GwE – Gwella Ysgolion). Adroddwyd bod Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn gosod gofynion penodol ar gyrff cyhoeddus sydd yn gweithredu trefniadau rheoli partneriaethol trwy Gyd-bwyllgorau ffurfiol. Ategwyd mai gofyniad Rhan 5 o’r Rheoliadau hynny yw i’r Cydbwyllgor adolygu a chymeradwyo Datganiad Rheolaeth fewnol gyda’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi ei ddarparu i gyd-fynd â’r gofyniad hwnnw.

Eglurwyd, er mwyn arddangos llywodraethu da, rhaid i GwE ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd sydd yn y '*Framework for Delivering Good Governance in Local Government (CIPFA/Solace, 2016*)'. Paratowyd y datganiad yn unol â'r egwyddorion hynny.

Nodwyd bod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un dra gwahanol o ran Gwasanaeth Gwella Ysgolion yn y Gogledd yn sgil newidiadau cenedlaethol a’r adolygiad o’r haen ganol. O ganlyniad, roedd y Datganiad yn manylu ar drefniadau oedd wedi bod yn weithredol am y flwyddyn ariannol 2024-25 a hynny yng nghyd-destun y newidiadau a’r cyfrifoldebau perthnasol.

Adroddwyd, yn dilyn cynnal yr asesiad, nad oedd materion llywodraethu arwyddocaol wedi’u hadnabod yn 2024/25 a nodwyd y farn bod y trefniadau llywodraethu yn cynnig sicrwydd cryf bod trefniadau llywodraethu GwE yn gweithio'n dda.

Diolchodd y Pennaeth Gwasanaeth GwE - Gwella Ysgolion, am y cydweithio da oedd wedi bodoli gydag Adran Gyllid Cyngor Gwynedd ac am eu cymorth parod i ddarparu adroddiadau yn unol â’r gofyn.

Cynigiwyd ac eiliwyd derbyn y Datganiad

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024/25.**

## 9. CYFRIFON TERFYNOL GWE - DATGANIAD O'R CYFRIFON

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn diweddaru aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol terfynol cyllideb GwE oedd hefyd yn amlygu trefn ar gyfer cyflwyno a chymeradwyo Datganiad o'r Cyfrifon, ar ffurf 'statudol', i'r dyfodol ynghyd a chyflwyniad o Gynllun Archwilio Cymru ar gyfer 2024/25.

Eglurodd Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau (Cyngor Gwynedd), bod Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cydbwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, gydag Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Ategwyd bod Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn mynnu bod pob Cydbwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol, a gan fod trosiant GwE yn fwy na £2.5 miliwn, rhaid paratoi datganiad o'r cyfrifon yn unol â chod CIPFA.

Eglurwyd, mai Cyngor Gwynedd fel y Cyngor lletyol sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ar faterion cyllidol Cyd-Bwyllgor GwE a gyda GwE yn dod i ben ar 31 Mai 2025, bydd cyfrifon 2024/25 a 2025/26 gael eu cyflwyno i Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Gwynedd i'w cymeradwyo.

Yng nghyd-destun cyfrifon 2024/25, eglurwyd bod yr alldro a gyflwynwyd uchod yn sail i'r Datganiad o'r Cyfrifon a chyfrifon statudol 2024/25. Nodwyd y byddai'r cyfrifon terfynol yn cael eu cylchredeg i aelodau'r Cyd-bwyllgor ac yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru. Y bwriad yw cwblhau archwiliad dros fisoedd yr haf a'u cymeradwyo yn derfynol ym Mhwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Gwynedd ar y 9ed o Hydref 2025.

Ategwyd, er mwyn cydymffurfio gyda'r gofynion, bydd cyfrifon 2025/26 hefyd y cael eu paratoi am y cyfnod o ddau fis o Ebrill i ddiwedd Mai, gyda rheiny hefyd yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru a cael eu cyflwyno i Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Gwynedd i'w cymeradwyo.

Cymerodd y Pennaeth Cynorthwyol y cyfle i ddiolch yn fawr i staff GwE, i'r Tim Busnes ac i'r Cyd-Bwyllgor am y cyd-weithio da a'r holl gefnogaeth gafodd yr Adran Cyllid dros y blynyddoedd. Dymunwyd y gorau iddynt i gyd i'r dyfodol.

**Cynllun Archwilio gan Archwilio Cymru.**

Croesawyd Siwan Glyn (Archwilio Cymru) i'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad

Cyflwynwyd adroddiad gan Swyddog Archwilio Cymru yn manylu ar y gwaith y mae Archwilio Cymru yn bwriadu ei wneud i fynd i'r afael a'r risgiau archwilio i Gydbwyllgor GwE 2025. Nodwyd y bydd archwiliad o'r datganiadau ariannol yn cael eu cwblhau ynghyd a gwaith archwilio perfformiad i asesu sicrwydd a risg.

Yng nghyd-destun perthnasedd datganiadau ariannol nodwyd y cyfrifir perthnasedd gan ddefnyddio gwariant gros 2024-25 sef £17.8 miliwn a chyfeiriwyd at y risg sylweddol i ddatganiadau archwilio ynghyd â'r risgiau archwilio. Ategwyd bod y risg sylweddol o wrthwneud rheolaethau gan reolwyr yn un oedd yn cael ei gynnwys yng nghynllun manwl pob Awdurdod. Nodwyd hefyd bod y risg archwilio o rwymedigaeth net cronfa bensiwn hefyd wedi ei gynnwys mewn nifer o gynlluniau ac nid yn benodol i GwE.

Atgoffwyd y Cydbwyllgor nad yw'r un archwiliad yn gallu rhoi sicrwydd cyflawn bod y cyfrifon wedi'u datgan yn gywir a bod yr archwilwyr yn gweithio i lefel faterol. Tynnwyd sylw bod diddymu'r Cyd-bwyllgor ar 31 Mai 2025 wedi arwain at ddiswyddo rhai staff ar 31 Mai 2025 ac fe gymeradwywyd y rhain yn ystod 2024-25. Nodwyd y bydd croniad ar gyfer costau amcangyfrifedig ar gyfer diswyddiadau ar 31 Mai 2025 yn cael ei ddatgelu yn natganiadau ariannol 2024-25 gyda risg o gamddatganiad materol gan fod gwerth y taliadau yn debygol o fod yn sylweddol. Nodwyd y byddai Archwilio Cymru yn asesu

rhesymoldeb y rhagdybiaethau a wnaed gan y Cyd-bwyllgor wrth gyfrifo'r croniad a chynnal profion manwl ar sampl o drafodion.

Tynnwyd sylw at y ffioedd, oedd wedi cynyddu yn sylweddol eleni, ond nodwyd na fydd Archwilio Cymru yn gwneud dim elw o'r gwaith ac os y byddai y ffigwr yn is wedi cwblhau'r gwaith, bydd ad-daliad yn cael ei weithredu.

Diolchwyd i Swyddogion Cyllid Cyngor Gwynedd am eu cefnogaeth a'r cydweithio da.

Cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r Cynllun

**PENDERFYNWYD**:

- **Derbyn a nodi'r drefn fydd i'w dilyn ar gyfer cyflwyno a chymeradwyo Datganiad o Gyfrifon GwE (yn amodol ar archwiliad) am 2024/25 a 2025/26.**
- **Derbyn a nodi'r Cynllun Archwilio fel y cyflwynwyd gan archwilwyr Archwilio Cymru.**

Nodyn: Cyfrifon Terfynol i'w cymeradwyo gan Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Gwynedd Hydref 2025

********

Cymerodd Cadeirydd y cyfarfod hwn, y Cyng Phil Wynn, y cyfle i ddiolch i bawb am fynychu cyfarfod olaf y Cydbwyllgor. Diolchwyd i bawb am eu hymrwymiad i'r gwaith dros y 18 mis diwethaf gan dderbyn bod y cyfnod wedi bod yn un heriol ac ansicr i nifer.

Ategwyd y diolchiadau gan Aelodau eraill o'r Cydbwyllgor gyda phawb yn derbyn bod y cyfnod wedi bod yn un cythryblus, ac roeddynt yn dymuno'r gorau i'r holl staff.

Diolchodd Euros Davies (Pennaeth Gwasanaeth GwE – Gwella Ysgolion) i holl staff GwE am eu gwydnwch a'u proffesiynoldeb drwy'r cyfnod anodd. Diolchodd i'r Uwch Dîm am y gefnogaeth ac am fod yn ymroddgar yn eu gwaith o gefnogi holl ysgolion y rhanbarth. Diolchodd hefyd am gefnogaeth staff cefnogol Cyngor Gwynedd dros y 13 mlynedd ddiwethaf.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 10.55 y.b.

**CADEIRYDD**